

# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 223

Pris £1

Mis Mehefin 2020



**Cwmni'' ar daith**

# “Cwmni” ar daith

Jenni Jones-Annetts

Yr haf diwethaf awgrymodd ffrind inni fynd ar daith i Croatia, Bosnia & Herzegovina a Montenegro. Dyna gyfle i weld gwledydd oedd yn hollol estron i mi. Byddai’n brofiad ymweld â sawl safle Treftadaeth y Byd UNESCO mewn wythnos. Roedd teithiau ychwanegol ar gynnig yn cynnwys Mostar gyda’r bont enwog. Byddwn i’n ffôl mynd mor bell a cholli’r profiad, siŵr o fod. Dyna gyngor Gwyn a Mags hefyd.

Adeiladwyd Stari Most, Hen Bont Mostar, yn yr unfed ganrif ar bymtheg; 1566 a bod yn fanwl. Mae hi’n 28 metr ac yn cysylltu dwy ochr y ddinas gyda’r Afon Neretva yn llifo oddi dani. Bu’r bont yn sefyll am 427 o flynyddoedd ond yn Nhachwedd 1993 cafodd ei dinistrio gan y Croataid yn ystod Rhyfel Bosnia y bu cymaint o sôn amdano yn ein cyfryngau ni.



ifanc yn gwisgo trôns nofio tywnn yn barod i ddeifio oddi ar y bont petai pobl yn fodlon talu. Mae’r arfer yn dyddio’n ôl i 1664. Mae’r bont yn eitha serth a llithrig hyd yn oed ar ddiwrnod braf, sych. Mae grynau (ridges) ar draws y bont ac mae’r pellter rhwng pob un yn union yr un peth i siwtio ceffylau nid pobl!

Yn y ddinas mae llawer o adfeilion ac adeiladau gwag yn frith o dyllau bwledi ond hefyd gwelir arwyddion o atgyweiriadau. Cyn croesi’r bont gwelir gwesty enfawr sy bron yn barod ar gyfer twristiaid y dyfodol. Mae’r ardal yn dibynnu ar y diwydiant hwn. Mae’r trigolion yn gyfeillgar dros ben ac yn falch o’u hetifeddiaeth a’u sgiliau yn cynhyrchu carpedi a nwyddau gyda metal a lledr.

Mae Mostar yn symbol o heddychfa, cydweithrediad rhyngwladol a chymod diwylliannau amrywiol a chymunedau crefyddol gyda phensaernïaeth cyn Ottoman, Ottoman dwyreiniol, Canoldirol a gogledd Ewrop. Gwerth ei weld, wir.



Ailadeiladwyd y bont yn 2004 yn defnyddio’r cerrig calch gwreiddiol a achubwyd o wely’r afon yn ogystal â rhai newydd o chwareli lleol. Roedd y broses yn atgoffa rhywun o ddulliau a ddefnyddir yn Sain Ffagan. Gyda defnydd modern o strwythur dur, dylai’r bont newydd sefyll am ganrifoedd. Yn rhyfedd iawn nid y trigolion lleol fu wrthi yn adeiladu’r bont ond Peiriannwyr Brenhinol Prydain. Agorwyd y bont yn swyddogol gan Y Tywysog Siarl ar 23 Gorffennaf 2004.

Wrth gerdded dros y bont, gwelir dynion

petai pobl yn fodlon talu. Mae’r arfer yn





## Ms Odette Jones

Gyda chryn dristwch y nodwn farwolaeth Ms Odette Jones a fu'n Bennaeth Cerddoriaeth yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni am ymron i chwarter canrif. Fe'i penodwyd ar adeg gyffrous yn hanes yr ysgol, sef ychydig cyn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni 1990. Yn enedigol o Aberystwyth fe ymsefydlodd yn y cwm. Amlygwyd ei thalentau cerddorol arbennig nid yn unig yn yr Eisteddfod ond ym mywyd diwylliannol yr ysgol a'r cwm ar hyd y blynyddoedd.

Meddai Odette Jones ar lais canu soprano nodedig a gallai fod wedi dilyn gyrfa broffesiynol ym maes canu ond penderfynodd aros ym myd addysg. Croesewid disgyblion o bob cefndir a gallu cerddorol i ymuno â chorau'r ysgol a gweithgareddau cerddorol o bob math, yn sioeau, cyngherddau a chystadlaethau, megis Eisteddfod yr Urdd. Derbynient, felly, brofiadau cyfoethog o ran eu Cymreictod a'u datblygiad personol, profiadau gwerthfawr a fydd yn aros gyda nhw am byth.

*Matthew Webb*

Rhoddodd Odette flynyddoedd o gefnogaeth i'r Urdd yn ogystal a chyfleuoedd anhygoel i filoedd o bobl ifainc i gystadlu a chymryd rhan yn yr Eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Ac wrth gwrs roedd hi'n feirniad ffyddlon hefyd. Mae gen i atgofion da (a rhai digri a rhwystredig!!) o gydweithio â hi yma yng Ngwent am dros 30 mlynedd ac bydd rhain yn aros yn y cof am fyth. Newyddion trist iawn iawn.

*Helen Greenwood*

## Dilys Hardacre

Â thristwch daeth y newyddion am farwolaeth Mrs Dilys Hardacre. Yn enedigol o'r Rhondda, roedd yn un o ddisgyblion cyntaf Pont y Gwaith, Ysgol Gymraeg gyntaf y Rhondda Fach. Yn aelod oes o'r Blaid Lafur, bu'n swyddog undeb, yn ffeminist amlwg ac yn gefnogol iawn o addysg Gymraeg. Roedd hi a'i gŵr wedi bod yn byw ym mhentref Deri, yng Nghwm Darran, ers blynyddoedd lawer, lle buont yn chwarae rhan arweiniol yn natblygiad y clwb rygbi lleol.

Mae ei gŵr David yn gynghorydd dros y pentref ers sawl blwyddyn ac, am gyfnod, ef oedd Aelod Cabinet y Sir dros addysg, lle cafodd y cyfle i fynegi'i gefnogaeth dros addysg Gymraeg. Nid yn unig aeth eu plant drwy'r system addysg Gymraeg ond bu Dilys, am gyfnod, yn gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Yn ogystal â'i gŵr David mae'n gadael Gareth, Christine a Siân i hiraethu ar ei hôl yn ogystal a'i hwyrion a'i gorwyrion.

## Eisteddfod Ysgol Farddol Menter Caerdydd

Mae Menter Caerdydd yn cynnal dosbarthiadau cynganeddu neu Ysgol Farddol yn nhymer yr hydref a'r gwanwyn. Athro'r dechreuwyd yw Emyr Davies; athro'r ail flwyddyn yw Aron Pritchard a Gruffudd Owen sy'n tywys y criw mwyaf profiadol. Penllanw'r dosbarthiadau yw Eisteddfod yr Ysgol Farddol, lle bydd beirniad yn tafoli cynigion barddol y criwiau gwahanol gan wobrwyo'r buddugwyr.

Roedd yr Eisteddfod eleni i'w chynnal ynghanol mis Mawrth, hyd nes i'r argyfwng iechyd darfu ar bob cynllun. Felly, bu'n rhaid i'r beirniad – Y Prifardd Mererid Hopwood – anfon beirniadaeth ysgrifenedig yn unig. Gellir darllen y feirniadaeth yn gyflawn ar wefan y Fenter: <https://mentercaerdydd.cymru/>

Rydym yn llongyfarch ein englynwr o Gaerffili ar lwyddiant pwysig arall. Dyma ei englyn ynghyd â'r englyn cyd ffuddugol.

### Englyn Anrhydedd Cyd-fuddugol: John Lloyd

Gornest y bryddest ddaeth â'r bri - molawd  
melys y coroni  
a nodyn o'i Mawrhydi,  
mae y bardd yn MBE.

### Cyd-fuddugol: Rhys Powys


A ddaw amlen eleni? Dwi'n addo,  
Dwi'n haeddu 'nghlodfori.  
Fe ddylwn gael f'addoli.  
O Mam Bach – dwi'n MBE!

### A dyma Hir-a-Thoddaid buddugol Rhys Powys

#### Gwynt

Morgannwg... Gwent... mae oergan y  
gwyntoedd  
Yn udo'n flin dros gomin, trwy gymoedd,  
Dros feddau, neuaddau, dros fynyddoedd.  
Twrw iasol fu'n rhoi trwy'r oesoedd,  
Sŵn bonllefau, sŵn angau, sŵn ingoedd  
Yno'n troedio hyd teras a strydoedd.

# Y Pwca



Os ewch lan Cwm Gwyddon o Abercarn, tua thair neu bedair milltir, byddwch chi'n cyrraedd lle mae Nant Gwyddon Fach yn ymuno â Nant Gwyddon. Enw'r lle hwn ydy'r Trwyn. Ac ar y mynydd uwchben y cwm roedd yn arfer bod fferm o'r enw Trwyn. Ac ar y fferm hon yr oedd y Pwca yn byw. Ond sut daeth y Pwca yma i fyw, a pham?

Wel yn ôl y stori roedd y Pwca yn byw ar fferm ym Mhant y Gaseg. Ac un diwrnod heulog braf, roedd un o forynion y fferm yn gweithio y tu fas yn yr iard, yn rhoio edau i mewn i beli, pan syrthiodd un i'r llawr. Gwelodd y Pwca hyn, a dywedodd, "Dw i wedi cael llond bol ar fyw yma, dw i'n mynd i mewn i'r bêl hon o edafedd ac yn mynd i ffwrdd i fyw ar fferm John Harri, yn y Trwyn. A fydda i byth eto'n dod yn ôl i Bant y Gaseg." A dyna beth wnaeth e. Aeth e i mewn i'r bêl o edafedd. Ac fe rolodd y bêl i ffwrdd, i lawr y bryn, ar draws y cwm, ac i fyny'r mynydd ochr arall y cwm, hyd nes iddo gyrraedd fferm y Trwyn.

Ar y dechrau, roedd y Pwca yn hapus iawn yn byw yn y Trwyn, ac er ei fod yn anweledig, datgelodd ei hun i Moses, prif was y fferm. Daethon nhw'n gyfeillgar iawn, a gwnaeth y Pwca ei helpu fe gyda llawer o'i waith. Ond ymhen amser, penderfynodd Moses adael y fferm, a mynd i ffwrdd i ymladd dros y Jacobitiaid yn yr Alban. Felly, penderfynodd y Pwca ddod yn ffrindiau â Blodwen, un o forynion y fferm, yn lle Moses. Profodd e'n ddefnyddiol iawn iddi hefyd, fe helpodd hi gyda'i holl waith. Golchi, smwddio a glanhau. Ac yn y diwedd dywedodd wrthi, "Dw i'n meddwl dy fod ti'n ferch hunanol. Dylet ti ddarparu bwyd a diod i mi, am fy mod i'n dy helpu di cymaint." Roedd Blodwen yn falch iawn o wneud hynny, a dechreuodd hi roi powlen o laeth ffres a thafell o fara gwyn allan bob nos iddo, cyn iddi hi fynd i'w gwely. Erbyn y bore roedd y llaeth wedi'i yfed a'r bara wedi ei fwyta.

Hyd at nawr roedd bywyd ar y fferm yn dawel ac yn heddychlon, roedd y Pwca wedi bod yn ymddwyn yn dda, ac yn gyfeillgar. Ond achosodd Blodwen drafferth rhyngddi hi a'r Pwca! Meddyliodd wrth ei hun, "Bydda i'n chwarae tric ar y Pwca." Ond hen dro gwael oedd e. Yfodd hi'r llaeth ffres a bwyta'r bara. Ac i'r Pwca gada-wodd rai hen grystiau o fara, a phowlen o ddŵr brwnt! Aeth y Pwca yn wyllt! Ac yn sydyn ymddangosodd e o unman, a chydio yn Blodwen wrth ei gwddf a'i churo yn ddidrugaredd, nes ei bod yn sgrechian am drugaredd. Ar ôl hynny daeth y Pwca yn drafferthus iawn ac achosodd bob math o drafferth o gwmpas y fferm. Yn y tŷ, yn y beudy, yn y stabl, ac achosodd anhrefn llwyr gyda'r ychen pan oeddent yn aredig.



Clywodd Thomas, un o gymdogion John Harri, am hyn, a phenderfynodd fynd i'r Trwyn i roi help i'w ffrind. Cymerodd ei wn o'r sied a dywedodd, "Dw i'n mynd i fferm John Harri a dw i'n mynd i saethu'r Pwca." Cyrhaeddodd y fferm a dechreuodd chwilio am y Pwca. Ond yn sydyn dechreuodd cerrig ddod ato o bob cyfeiriad yn ei fwrw a'i frifo'n wael. Rhedodd pobl i'w helpu o bob rhan o'r fferm a'i amgylchynu gan feddwl ei amddiffyn, ond roedd y cerrig yn dal i'w daro fe.

Ond y peth od oedd, ni wnaeth y cerrig daro neb arall, dim ond Thomas. Yn y diwedd roedd Thomas wedi cael digon, cododd ei wn a rhedodd adre mor gyflym ac y gallai.

Un diwrnod aeth John Harri, fferm y Trwyn, i'r ffair, a threuliodd y dydd yno. Ond ar ei ffordd adre, am ryw reswm, aeth e ar goll ar y mynydd. Nid oedd e'n gallu deall hyn, oherwydd ei fod yn adnabod y mynydd mor dda. Ond roedd e ar goll. Efallai bod hyn oherwydd ei bod hi'n noson mor dywyll heb hyd yn oed lygedyn o olau lleuad, neu efallai am ei fod wedi cael gormod i'w yfed.

Roedd hynny'n bosib oherwydd gwnaeth e gwrdd â lot o hen ffrindiau yn y ffair, ond ta beth, doedd dim syniad 'da fe lle roedd e. Roedd e'n crwydro o gwmpas mewn cylchoedd heb unrhyw syniad i ba gyfeiriad i fynd. Pan, yn sydyn, ymddangosodd golau o'i flaen! Roedd rhywun arall ar y mynydd, rhywun â llusern. Penderfynodd y byddai'n cerdded at y golau ac yn gofyn iddynt lle yn union oedd e, ond ar ôl cerdded am sbel sylweddolodd bod y golau yn aros yr un pellter o'i flaen, doedd e ddim yn gallu cyrraedd y golau. Gwnaeth e ddilyn y golau am filltiroedd pan, yn sydyn, stopiodd y golau. Roedd e bron â chyrraedd y golau, ac ar fin gweiddi allan ar y person a oedd yn dal y llusern!

Yna, clywodd sŵn llifeiriant o ddŵr, ac yn sydyn cymerodd y person â'r llusern naid enfawr a glaniodd yr ochr arall i ddyfnant enfawr. Disgleiriodd golau llachar a sylweddolodd John ei fod e'n sefyll ar ochr dyfnant ddychrynlyd. Ac yn sefyll ochr arall y ddyfnant oedd dyn bach bach gyda gwallt hir, clustiau pigfain, â golwg faleisus ar wyneb hyll. Y Pwca! Pan welodd y Pwca nad oedd John wedi cwmpo i mewn i'w drap, rhoddodd chwerthiniad uchel crintallyd, diffoddodd y llusern a diflannodd. Roedd hi mor dywyll, dywyll fel bol buwch ac roedd ofn ar John symud. Arhosodd yno tan dorrodd y wawr, ac yna gwnaeth ei ffordd adre.

Ni welwyd y Pwca yn Y Trwyn erioed wedi hynny.

*Malcolm David*

Yn y dyddiau rhyfedd hyn, dim ond dyrnaid ohonom gaiff fentro ymhellach na'n milltir sgwâr, ac felly dechreuais feddwl am yr hanes sydd i'w ganfod o fewn y cwmpawd hwnnw - ac yn agosach fyth weithiau.



Rwy'n byw yng nghanol Ystrad Mynach, mewn tŷ a adeiladwyd ym 1905, adeg dechrau suddo pwll mawr Penallta, a'r adeg hefyd pan godwyd llawer o adeiladau cyfarwydd y stryd fawr, gan gynnwys siop Emlyn Lloyd, sy'n enwog trwy'n cwm ni. Mae tafarn fawr y "Beech", gyda'i stablau, yn perthyn i'r un cyfnod prysur, fel mae'r Arcêd a nifer o adeiladau rhwysgfawr eraill. Mae'r cyfan yn adlewyrchu hyder a ffyniant y gymdeithas yn y



blynyddoedd hynny, ac yn arddangos dyddiad eu sefydlu gyda balchder. Sylwch ar y sillgoll yn enw'r Arcêd hefyd – tystiolaeth i safonau uchel gramadeg y cyfnod!

Dyma'r adeg pan ddaeth fy nheulu i Ystrad Mynach i fyw, oherwydd i 'nhad-cu gael ei benodi'n brifathro ysgol elfennol i fechgyn y pentref ym 1915. Beth amser yn ôl treuliais gwpl o ddyddiau difyr yn Archifdy Morgannwg, yn pori trwy lyfr log yr ysgol, a gadwyd yn dwt ac yn daclus gan 'nhad-cu – fel sy'n ofynnol i bob pennaeth ysgol hyd heddiw.

Mae'r llyfr log yn nodi digwyddiadau o bwys ym mywyd yr ysgol, ac mae'n tystio hefyd i'r ergydion a darodd y gymuned yn ail ddegawd yr ugeinfed ganrif. Os codwyd tai a siopau Ystrad Mynach gyda hyder a gobaith, yn fuan iawn gwelwyd trigolion mewn gwisgoedd du ar y strydoedd, a phryder a galar yn destun y sgwrs yn y siopau ac ar y stepen drws.

Yr ergyd gyntaf wrth gwrs oedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r llyfr log yn cofnodi athrawon yn gadael am y lluoedd arfog ac athrawesau hefyd yn gadael i briodi neu i hyfforddi'n nyrsys. Dyddiad 1914 ei hun sydd ar rai o bibau dŵr tafarn y "Royal Oak".

Yr ail ergyd oedd y Ffliw Sbaenaidd a gyrhaeddodd ar yr union adeg pan oedd y rhyfel yn dirwyn i ben. Mae llyfr log yr ysgol yn cofnodi effeithiau hynny hefyd. Nid oedd salwch difrifol yn anghyffredin yn y dyddiau hynny, a chofnodai 'nhad-cu enghreifftiau o blant yn dioddef o bob math o glefydau sydd wedi eu dofi erbyn heddiw. Yn ystod y misoedd cyntaf, mae'r llyfr yn nodi absenoldebau nifer fawr o ddisgyblion oherwydd "epidemics" o'r dwymyn goch (*scarlet fever*) a difftheria. Roedd hyd yn oed heintiau plentyndod fel y frech goch a brech yr ieir yn beryglus iawn yn y dyddiau cyn darganfod gwrthfotigau.

Mae 'nhad-cu yn nodi salwch a marwolaeth rhai o'i athrawon, a'r disgyblion hefyd, nes iddo yntau gael ei daro'n wael yn Hydref 1918. Yn ôl yr hanes yn y teulu, bu bron iddo farw, a bu i ffwrdd o'r gwaith am wythnosau. Ond yr hyn sy'n rhyfedd o'i gymharu â'n sefyllfa ni yw bod yr ysgol ar agor trwy gydol y cyfnod, ac ymddengys bod bywyd yr ysgol a'r pentref wedi parhau yn gymharol normal. Does dim moddion i atal y firws heddiw - a doedd dim ar gael ganrif yn ôl chwaith. Ond ymateb gwahanol iawn oedd gan drigolion y tai cyfarwydd hyn i haint mor debyg i'r un sydd wedi rhoi terfyn ar fywyd normal heddiw. Pam, tybed?





# 1961 – 2021

## 60 mlynedd o Addysg Gymraeg yng Nghaerffili



Ie, yn 1961 ddechreuodd yr antur fawr! Dyma ffurfio dosbarth cyfrwng Cymraeg i blant yr ardal am y tro cyntaf a hynny yn yr ysgol yn Stryd Parcyfelin a fu'n gartref i Ysgol Gymraeg Caerffili tan ryw chwe mlynedd yn ôl.

Mrs Moyra Davies oedd yr athrawes arloesol a hynny dan brifathrawiaeth y Cymro Cymraeg T. H. Williams. Gwelwyd yn fuan bod angen mwy nag un ystafell ar y cyw ysgol a phan ddaeth adeiladau ysgol uwchradd fodern Senghenydd yn wag, symudodd y dosbarth i'r adeiladau hynny ym mis Chwefror 1963.

Diolchwn i Elin Owen am yrru'r llun uchod atom. Cyhoeddwyd hwn i nodi dathlu pumed pen-blwydd yr ysgol yn 1966. Gwelwn yn y cefn: Phylis Owen, Moyra Davies, Gwyn Jones a Mair Parry. Gwyn Jones ddaeth yn ddirprwy i Mrs Davies cyn etifeddu ei swydd yn bennaeth yr ysgol yn 1981. Yna yn y rhes flaen mae : Alan Yearsley, Jeffrey Miles, Liz Fussell, Melinda Walters, Richard Morris, Ann Tilley, Nia Parsons, Daniel Jones a Charles Fussell. Diolch i Nia Parsons, merch Moyra Davies, am y manylion hyn.

Ond buan y llanwyd yr adeilad a bu'n rhaid i 90 o blant drosglwyddo yn ôl i Stryd Parcyfelin ym mis Chwefror 1970 a dyna pryd y bu'n rhaid ailenwi'r ysgol yn Senghenydd yn Ysgol Ifor Bach. Aeth y dirprwy bennaeth yn Senghenydd, Mrs Dorothy Morgan, gyda'r plant hyn i lawr i Gaerffili i fod yn ddirprwy yno i'r pennaeth newydd, Mr Idwal Jones. Yn anffodus bu Mr Jones farw yn 1977 ac yna daeth Mrs Morgan yn bennaeth yn ei le.

Sut y daeth yr adeilad yno i fod yn Ysgol Gymraeg mor fuan? Wel, mae honno'n stori arall fydd yn ymddangos yn rhifyn nesa "Cwmni".

Byddai wedi bod yn braf gallu dathlu hanner can mlwyddiant yr ysgol yng Nghaerffili eleni ond, wrth gwrs, daeth argyfwng y Coronafeirws ar ein traws. Ond onid nawr yw'r amser i weld sut allwn ddathlu'r garreg filltir 60 mlynedd y flwyddyn nesaf?

# Yn Gan Mlwydd Oed

Ein braint yw llongyfarch darllenwr hynaf “Cwmni” wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed ar Fai 11eg. Roedd Miss Nesta Jones yn dathlu’r garreg filltir nodedig hon yn y tŷ y’i ganed ynddo yr holl flynyddoedd yn ôl. O’r cartref hwn aeth hi i astudio am radd mewn Hanes ac Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Bu’n athrawes yn Ysgol Ramadeg Llandysul yn ystod yr Ail Ryfel Byd lle clywodd y newyddion fod y rhyfel yn dod i ben. Mae’n ymhyfrydu yn y ffaith iddi addysgu cyn-Archdderwydd Cymru, y Prifardd T. James Jones, sy’n fwy adnabyddus efallai i ni fel Jim Parc Nest.

Daeth yn ôl i’w bro enedigol a bu’n athrawes ym Mhont-y-Pŵl am ugain mlynedd ond o Ysgol Lewis i Ferched yr ymddeolodd. Mae hi’n gerddor medrus hefyd sydd yn dal i ganu’r organ yn ei chapel, Bethany, Ystrad Mynach, ac yn ymarfer ar hen piano ei mam sydd yn dal i fod yn y cartref teuluol. Hi oedd organyddes ac ysgrifennydd Capel Tabor, Maesycwmer tan i hwnnw gau. Mae’n ddifyr meddwl fod Tabor yr ochr draw i draphont Hengoed o gartref Miss Jones yn Hengoed, tybed a oedd hi’n cerdded draw yno bob dydd Sul?

Bydd sawl un o’n darllenwyr hefyd yn gyfarwydd â’i gweld yng Nghlwb Cerddoriaeth Cwm Rhymni sy’n cyfarfod unwaith y mis bob yn ail yng Nghanolfan Siloh ac Ysgol Lewis i Ferched, yn Ystrad Mynach. Ac roedd Miss Jones, tan yn ddiweddar, yn ei gyrru ei hun i’r cyfarfodydd.

Bydd ein darllenwyr yn cofio cyfraniad Miss Jones i waith Cymdeithas Morgan John Rhys pan oeddem, yn 2004, yn dathlu dau gan mlynedd ers marwolaeth yr addysgwr a’r Bedyddiwr enwog o’r Graddfa, Llanbradach. Yr adeg honno ysgrifennodd erthyglau i hyrwyddo gwaith y gymdeithas a bu’n aelod ffyddlon o’r pwyllgor. Yn gydnabyddiaeth o’i brwdfrydedd dros hanes lleol, gwnaed hi’n Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas Hanes Gelligaer, cymdeithas sydd ar hyd y blynyddoedd, wedi cynnal ymchwiliadau a chyhoeddi llyfrau ar hanes canol Cwm Rhymni.



## Bro360

Yn ystod yr argyfwng presennol mae ein Menter Iaith yn darparu pob math o weithgareddau ar-lein a thrwy “Zŵm”. Cysylltwch â Bethan - mae’r manylion isod.

Erbyn hyn mae’n cwmni drama Cwmni Cwm Ni yn darllen dramâu rhwng 7:30 a 8:30 bob nos Lun hefyd ar Zŵm. Gallwch ymuno â nhw ond i chi gysylltu â Bethan

Hefyd mae cylchgrawn Golwg wedi llunio safle “Bro360” lle maent yn arddangos cynnwys dros 20 o bapurau bro Cymru gan gynnwys “Cwmni”. Pam nad ewch chi i ymweld a’r safle?

Bethan Jones-Ollerton

Swyddog Datblygu Cymunedol

[bethanjones@mentercaerffili.cymru](mailto:bethanjones@mentercaerffili.cymru)

## Cyhoeddiad


Hoffwn i chi dynnu sylw at y ffaith bod gan wefan Gymdeithas Rhiw’r Perai bellach adran Gymraeg y gall darllenwyr edrych arni. Y wefan yw [www.ruperra.wales](http://www.ruperra.wales).

Bydd mwy ohono cyn bo hir-- gobeithio

Diolch yn fawr iawn

Pat Jones-Jenkins

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Ceisiwch ddod o hyd i 11 peth yn y chwilair sydd yn yr ardd.

COEDEN GWAIR BLODAU

WAL FFENS PATIO

SIED POTIAU LLWYBR

MAINC BATH ADAR

Mae'r atebion ar dudalen 16

## Llyfr i ddathlu'r twf mewn cefnogaeth i annibyniaeth!

cyhoeddwy'r ac argraffwyr  
publishers & printers **y Lolfa**

Mae Gwasg y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i'r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â'r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit neu wedi penderfynu yn nyddiau'r Coronavirus mai annibyniaeth i Gymru yw'r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: "Byddai'n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Beth oedd y sbardun i chi gefnogi'r ymgyrch? Pam bod angen annibyniaeth? Byddai'n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a'ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â'ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o'r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y lockdown."

Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a'ch straeon: [mari.emlyn@btinternet.com](mailto:mari.emlyn@btinternet.com). Dyddiad cau derbyn deunydd yw **1 Mehefin, 2020**.



# Stordy Amgueddfa Cymru

Erbyn i'r rhifyn yma o Cwmni gyrraedd eich stepen drws, neu fwy na thebyg eich "*in box*", mi rydan ni i gyd yn gobeithio fod yna oleuni ar ddiwedd y twnnel ac y byddwn ni'n rhydd i grwydro unwaith eto. Bydd yn braf i fynd allan i gwrdd â ffrindiau ac i ymweld ag amgueddfeydd a hen adeiladau. Cofiwch fod llefydd fel hyn wedi colli o leiaf hanner eu tymor ag yn ysu am gael pobol i ymweld â nhw er mwy talu rhai o'u biliau o leiaf.

Mi rydan ni'n lwcus yma yng Nghaerffili, mae Castell Caerffili, Castell Coch a Llancaeath Fawr yn ddigon agos, neu beth am fynd i Grochendy Nantgarw am banded arbennig? Llai na milltir i ffwrdd o'r Crochendy mae Stordy Amgueddfa Cymru, ychydig yn bellach na'r sinema ym Mharc Nantgarw.

Fel pob amgueddfa arall, mae'r hyn sydd i'w weld ym mhrif sefydliadau'r Amgueddfa Genedlaethol ond yn rhyw ddeg neu ugain y cant o'r hyn y maen nhw'n berchen arno, mae rhan helaeth o'r gweddill yn Nantgarw. Yno mae gyda nhw gasgliad gwych o geir - gan gynnwys tri Gilburn - bysiau, llongau, gan gynnwys llongau achub, hofrenyddion, cannoedd o wahanol byst golau (*lampposts*), offer rheilffyrdd - gan gynnwys cerbydau trên, injans stêm ac injans cynnar; heb sôn am dros 10,000 o luniau.



Yn Nantgarw mae'r gweithdai atgyweirio ar gyfer y rhannau o'r casgliad sydd angen eu hatgyweirio. Ar un ymweliad roedden nhw'n gweithio ar beiriant ffrio sglodion o Oes Fictoria sydd nawr yn ffrio sglodion yn Sain Ffagan.

Ar ymweliad arall esboniodd y dechnegwraig y rheol 6 troedfedd: 6 modfedd i ni. Pan maen nhw'n trwsio maen nhw am i'r peth edrych yn berffaith o 6 troedfedd i ffwrdd ond maen nhw am i ni weld y gwaith maen nhw wedi'i wneud pan ydan yn edrych mor agos â chwe modfedd.



Ar ein hymweliad diweddaraf roedden nhw'n trwsio llyfr wedi'i wneud allan o ddarn o lo, a'r incwel yma (gweler y llun) wedi'i wneud allan o un o garnau Kildare, merlen gafodd ei lladd yn namwain enwog Senghennydd yn 1913. (Os oes rhywun yn gwybod mwy am y ferlen, byddai'r Golygydd yn falch o glywed yr hanes).

Mae'r stordai ar agor i bartïon rhwng 12 a 20 o bobol yn rhad ac am ddim, ac os ydy'r parti yn fwy na 20 gwnân nhw drefnu mwy nag un grŵp. Ffoniwch yr Amgueddfa ym Mharc Cathays - 0300 111 2 333 - a gofynnwch am Stordai Nantgarw i wneud trefniadau. Mae pob ymweliad yn para tuag awr. Beth amdani?

Allan Cooke

## Y Ffôn Cymraeg

Gan y Byssellwr **Blin**.



Mae yna lot ohonoch chi allan yn fan yna sy ddim yn gallu defnyddio'ch ffôn yn iawn i anfon neges testun yn Gymraeg. **Arghhhhhhhh!**

Mi ydw i'n cael negeseuon lu sy'n ystyried bod 'pêl' heb y ^ yn berffaith iawn a ffôn heb ^ yn OK. **Wel, dydy o ddim, reit!** Mae 'ffôn' yn rhywbeth rydych chi'n ei ddefnyddio i gerdded, a 'ffôn' yn rhywbeth rydych chi'n ei ddal at eich clust ac yn treulio llawer gormod o amser arno fo, a does dim gair 'pel' yn y Gymraeg. **Hmffff!**

Felly, dyma sut i gywiro'ch bysellu gwallus.

**â ê î ô** yn gyntaf – hawdd! Jest daliwch eich bys ar y llythyren ac fe fydd bocs yn ymddangos yn cynnig fersiwn gyda ^ a dewiswch honno. **Isi pisi.**

Ond, dydy **ŵ** ac **ŷ** ddim yno felly, Mam bach be wnâi?



Mae achubiaeth: defnyddio

**switchkey**, os oes ffôn **android** gennych chi. Mae opsiynau'r ffôn yn cynnig y peth i chi a, wir i chi, fe fydd eich ffôn yn adnabod yr iaith rydych chi'n ei defnyddio ar ôl gair neu ddau ac yn cynnig opsiynau i chi uwch ben y bysellfwrdd ar y sgrin, ac yn rhoi ^ i mewn i chi ar 'w' ac 'y' hefyd. Mi fydd o'n dyblu 'n' ac 'r' i chi yn ôl y galw hefyd.

**Gwyrthiol!** Ac yn **Whatsapp** hefyd.

Ffôn android sy gen i felly wn i ddim am ffonau **i-phone** ond dw i'n siŵr bod Steve Jobs o Apple wedi bod yn poeni amdanon ni Gymry ac wedi meddwl am rhywbeth i ateb y galw cyn iddo fo farw. Ewch i chwilota. Dw i ddim am wneud popeth drosodd chi!!!!!!

Felly dim esgus o hyn ymlaen. **Deal!**

G.W.W.



**m** **mudiad meithrin**  
arbeniawyr v blvnddoedd cynnar



### Cronfa Argyfwng Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn teimlo'n angerddol ynglŷn â rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i chwarae, dysgu a thyfu yn y Gymraeg yn ein Cylchoedd Meithrin. Yn wyneb y sefyllfa bresennol oherwydd y pandemig Covid 19 mae nifer fawr o'r Cylchoedd Meithrin wedi gorfod cau dros dro. Gan fod y Cylchoedd yn ddibynol ar ffioedd rhieni i'w cynnal yn bennaf, rydym wedi agor Cronfa Argyfwng er mwyn gallu helpu i dalu costau staff, rhent ac ati fel bo'r Cylchoedd Meithrin yn gallu goroesi sgil-ffeithiau y pandemig, gan felly barhau gyda'r gwaith o greu siaradwyr Cymraeg newydd.

Os ydych chi mewn sefyllfa i helpu byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gyfrannu i'r gronfa argyfwng. Gallwch gyfrannu drwy ein tudalen JustGiving arbennig: <https://www.justgiving.com/campaign/cefnogicylchoedd>

[Mae hefyd modd cyfrannu drwy ddanfôn siec at Mudiad Meithrin, wedi'i gyfeirio at 'Cronfa Argyfwng Cylchoedd Meithrin' i](#)

Canolfan Integredig Mudiad Meithrin  
Boulevard de Saint-Brieuc  
Aberystwyth, Ceredigion  
SY23 1PD

Byddem yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad – bach neu fawr.

**Ar ran plant bach Cymru: DIOLCH yn FAWR.**



# Clwb Darllen Cwmni

*Am na fu hi'n bosib i'r Clwb Llyfrau gyfarfod, dyma'r aelodau yn rannu rhai o'u hoff lyfrau gyda'n darllenwyr.*

## Hiwmor y Cilie gan Jon Meirion Jones

Mae gen i wendid i ailddarllen llyfrau. Yn ddiweddar mae cyfle wedi bod i bori trwy'r silffoedd a mwynhau cyfrolau am yr ail dro a, rwy'n bownd o gyfaddef, weithiau am y drydydd waith.

Roedd Hiwmor y Cilie yn gyfrifol am yr antur bresennol. Nid llyfr jôcs yw hwn, er ei fod e'n rhan o'r gyfres "Ti'n Jogan". Roedd teulu Jeremiah Jones yn byw yn y Cilie, fferm heb fod yn bell o Gwmtedu, Ceredigion. Yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ganwyd deuddeg o blant i Jeremiah a'i wraig, Mary. Roedd Jeremiah ei hunan yn barddoni a phasiwyd y ddawn i'r saith bachgen a rhai o'r merched.

Mae ffraethineb eu cerddi a'u straeon yn unigryw ac mae'n rhaid eu darllen a'u hailddarllen, wrth gwrs. Wrth glywed am gymeriadau'r teulu hwn rydym yn dysgu am yr ardal. Mae Hiwmor y Cilie yn sôn am ochr ysgafn y teulu, mewn englynion a chwpledi.

Nawr mae'r helfa o gwmpas y silffoedd yn dechrau. Roedd y llyfr bach hynod yma yn hala chwant arnaf i ddarllen mwy am gymeriadau eraill ardal Llangrannog. Yr un cyntaf y deuthum ar ei draws oedd "Fy Mhobl I" gan T. Llew Jones. Os am ddarganfod teimlad yr ardal, dyma'r llyfr gorau. Wedyn, ymlaen i "Tua'r Gorllewin – Cofiant T. Llew Jones", gan Idris Reynolds. Yr un nesaf ar y rhestr yw "Cofio Dic", hefyd gan Idris Reynolds, ac wedyn "Bro a Bywyd T. Llew Jones", a olygwyd gan Jon Meirion Jones. Dyma wledd. Rhwng darllen a phori'r silffoedd rwy'n breuddwydio am wyliau yn y dyfodol. 'Sgwn i yn lle?

*Mary Jones*

## Esgyrn gan Heiddwen Jones

Rwy wedi bod yn darllen llawer mwy nag arfer oherwydd y cyfyngiadau. Ar hyn o bryd rwy hanner ffordd drwy fersiwn Kindle o Esgyrn gan Heiddwen Jones. Rwy'n joio fe ma's draw. Stori am ddau frawd wedi dychwelyd at eu dat-cu ar ei fferm ar ôl tor-priodas eu rhieni a damwain car a.y.y.b. Ceir cyferbyniaeth yma rhwng eu bywyd trefol modern a'r hen ffordd Gymreig o fyw (er fod Tad-cu ddim yn mynd i'r capel). Ma' gwrthdaro hefyd rhwng Tad-cu a'r newydd ddyfodiad drws nesa. Ma'r stori'n adeiladu yn effeithiol iawn tua rhyw ddiwedd anochel ac efallai datgelu rhyw gyfrinach. Rwy'n ffaelu gwneud "spoiler" achos mod i heb ei gorffen hi eto. 😊

Hoffwn i grybwyll hefyd cyfres hynod o ddifyr yn yr iaith fain, sydd wedi ei lleoli yn Ne-Orllewin Cymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, h.y. cyfres The Teifi Valley Coroner gan Alis Hawkins. Os ych chi'n hoffi "who dunnits" hanesyddol, gyda chymeriadau diddorol a chefnidir gymdeithasol llawn cynnwrf a chyffro, dyma'r gyfres i chi. Ma'r ddwy gyntaf i'w cael ar Kindle - None So Blind (ynghlwm â gwrthryfel Rebecca); In Two Minds (wedi ei lleoli ym mhorthladd Aberteifi a'r cylch) ac mae'r drydedd yn dod ma's ddiwedd mis Mai, sef Those Who Know. Joiwch!

*Elin Owen*


## Wythnos yng Nghymru Fydd gan Islwyn Ffowc Elis

Defnyddir y gair "iconic" yn rhy hawdd y dyddiau yma ond mae'n air y gellir ei ddefnyddio'n hyderus wrth ddisgrifio'r nofel hon. Ynddi darlunir dwy ffordd y gallai Cymru ddatblygu yn ystod y pedwar ugain mlynedd o'r adeg y cafodd ei hysgrifennu yn 1957.

Mae'r portread o'r Gymru Rydd yn hynod broffwydol o ystyried safon technoleg yn ystod pumdegau'r ganrif o'r blaen. Mae Ifan Powell, ein tywysydd drwy amser, wrth ddisgrifio'r newidiadau, yn rhagweld "gwelffôn" a ninnau yn ystod ail degawd y ganrif hon yn cyfathrebu'n hyderus ar "Face Time" beth bynnag am "Skype". ➡

# CHWILAIR

## Coronafeirws gan Sharon Hywel



*Mae'r geiriau sydd yn gudd yn y chwilair isod wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar.  
Pan ddewch o hyd iddyn nhw i gyd, bydd y llythrennau sy'n weddill  
yn sillafu rhybudd sy'n berthnasol i bawb.*

afiechyd, argyfwng, brechlyn, bregus, calon y ddraig, coronafeirws, covid-19, cymdogion, cymorth, dwy fetr i ffwrdd, enfys, gofal, golchi dwylo, gwahardd teithio, gwasanaeth, henoed, hunan ynysu, lledaenu, mwgwd, offer, pandemig, peswch, prinder, siopa, tymheredd.

W A H Th R O M Y C R T O G G  
S A U A A B R E Ch L Y N W I  
U S N R F S D W G W M A A A  
G W A G I Ch W S E P H O S R  
E R N Y E S I O P A E L A Dd  
R I Y F Ch D G E R N R Y N Y  
B E N W Y A N Dd I D E W A N  
L I F Y Ng D F T U N E Dd D E O  
E A S R Y E T L D M R I Th L  
D N U S I E A F E I C Ch A A  
A O D Th W F N Dd R G V L I C  
E R I O O Ff E R H E N O E D

### Wythnos yng Nghymru Fydd gan Islwyn Ffowc Elis *parhad*)

Bellach, darllenwn yn weddol aml am y posibilrwydd o geir yn teithio ar hyd ein heolydd heb yrrwr, rhyfeddwn felly at ddychymyg yr awdur yn rhagweld hyn mor bell yn ôl. A ninnau bellach yn derbyn "Cwmni" ar-lein, mae'n syndod fod yr awdur yn darogan y byddai Cymry yn derbyn eu papur dyddiol ar sgrin, debyg i deledu, bron i saith deg mlynedd yn ôl.

Darlun digon digalon gawn o ail ymweliad Ifan â'r dyfodol a Chymru bellach yn "Western England"; dyw'n gwlad yn ddim byd ond fforestydd a chronfeydd dŵr a'r iaith wedi hen gilio o'r tir. Trist oedd darllen eto'r disgrifiad enwog o'r hen fenyw olaf i siarad yr iaith yn ceisio adrodd y Drydedd Salm ar Hugain.

Darllenais i'r nofel ryw drigain mlynedd yn ôl ac rwy'n dal i ryfeddu cymaint roeddwn yn cofio wrth ei hailddarllen. Prawf sicr gymaint roedd y nofel wedi dylanwadu arnaf.

Ben Jones



Dyma'r caneuon a'r raps a ysgrifennwyd gan blant Ysgolion Cymraeg Caerffili fel rhan o'r prosiect "O Bydded i'r Heniaith Barhau!" a ymddangosodd yn rhifyn mis Mai.

## Cân Ysgol y Castell

'Dyn ni eisiau miliwn i siarad ein hiaith  
Wyt ti'n barod? Dere gyda ni a dechrau'r daith.  
'Dyn ni eisiau miliwn i sgwrsio gyda ni  
Mae'r iaith i bawb yng Nghymru - beth am ei siarad  
hi?  
Mae plant Caerffili yn barod iawn i helpu  
Barod? Bant â ni!  
Wyt ti'n mynd i fod yn un mewn miliwn?  
Wyt ti'n mynd i ddod 'da ni ar ein taith?  
Wyt ti'n mynd i fod yn rhan mor bwysig  
O Gymru yn adennill iaith?  
Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân  
Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân  
Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân  
Cerddwn ymlaen yn awr.

## Cân Ysgol Ifor Bach

Yn Ysgol Ifor Bach  
Mae pawb yn hoffi dysgu  
Ymarfer corff sy'n hwylus  
I gadw ni yn heini.  
Cymraeg yw iaith yr ysgol  
Cymraeg yw'r iaith i chi  
Gwnewch ymdrech nawr i ddysgu'r iaith  
A siarad gyda ni.  
Ymdrech a lwydda  
Ymdrech a lwydda  
Ymdrech wrth ddysgu'r iaith.  
Ymdrech a lwydda  
Ymdrech a lwydda  
Gymry, mae hynny'n ffaith.  
Yn Ysgol Ifor Bach  
Mae pawb yn greadigol  
Yn hyderus iawn o hyd  
Mentrus, egwyddorol.  
Cymraeg...

## Cân Ysgol Gymraeg Caerffili

Mae ysgol yng Nghaerffili  
Ein hysgol hyfryd ni.  
Ysgol iachus, hapus  
Y lle i ti a fi.  
Ysgol greadigol  
Pawb yn egwyddorol  
Dewch i'r ysgol er mwyn gweld  
Plant sy'n uchelgeisiol.  
Does dim Welsh Not yma  
Mae pawb yn falch o'r iaith  
Siaradwn hi 'da'r byd i gyd  
A dyma sydd yn ffaith.  
Hawl plentyn ei iaith  
Hawl plentyn ei iaith  
A dyma sy'n ffaith

## Raps Tafodiaeth Ysgol Ifor Bach

Dwi'n nabod hogyn yn yr ysgol  
Mae e'n fachgen bach rhagorol.  
Yn mynd i'r lle chwech yn aml iawn  
Mae e'n neidio lan a lawr!  
Mae e'n poeni, mae e'n becco  
Bydd yn disgyn, bydd e'n cwmpo  
A glanio'n fflat ar ben y gacen –  
Bydd ei wyneb yn llawn teisen!  
Pawb yn chwerthin dros y lle  
O'r Gogledd pell reit lawr i'r De!  
Rap Rap Rap Blwyddyn 4  
Rap Rap Rap Blwyddyn 4  
Rap Rap Rap Blwyddyn 4





## Colofn Dafydd Islwyn

Hel meddyliau wrth i'r bws aros yn arosfan Bont Close. Cofio i mi weld map o'r ardal yn 1922 yn y gyfrol Saesneg am ysgolion cynradd yr ardal a gyhoeddwyd yn 2008. A'r hyn a'm trawodd gyntaf oedd yr enw ar yr ardal, Gwaun y Borfa. Arni yr oedd safle hen bwl glo Pengam a rheilffordd Aberhonddu a Merthyr. Heddiw

prin yw'r olion. Cofio hefyd am un o ddau lun ar dudalen 44. Yr un isod yn dangos Commercial Street ac yn y cefndir gellir gweld y pwll glo ac o'i flaen rhes hir o dryciau yn llwythog o lo. Dyddiad y llun ydy rhyw flwyddyn rhwng 1912 a 1916. Y fath newid rhyfeddol sy wedi digwydd i'r ardal. Cofiais i dri phrifardd weithio cerddi am Y Glöwr. Awdl gan Tilsli, englyn gan Elfed ac un pennill gan T. Gwynn Jones. Enillodd Tilsli, Y Parchedig Gwilym R. Tilsley a oedd yn byw yn Aberdâr ar y pryd, ei Gadair gyntaf yn y Genedlaethol, Caerffili, am ei "Awdl Foliant i'r Glöwr". Apeliodd symlrwydd dirodres yr awdl at y tri beirniad ac felly doedd ryfedd iddi ennill ei lle yng nghalon llengarwyr gan gynnwys cerdd dantwyr! Yr englyn a gofiais yn y bws oedd yr un sy'n cloi caniad cyntaf yr awdl, cadwyn o ddeuddeg englyn,

Ei fywyd ef na fo ofer – ei ganu  
A'i gur nac anghofier;  
Ei glod a ddyrchafo'r glêr  
A'i ogoniant a ganer.

Mae'r ddwy linell gyntaf, paladr yr englyn, yn gyngor hawdd ei gofio. Ar ôl yr eisteddfod yng Nghaerffili galwodd nifer o lowyr, yn eu dillad gwaith, yng nghartref Tilsli i'w longyfarch. Derbyniodd rhai ohonynt ei wahoddiad i eistedd yn y Gadair gan adael eu hôl arni. Mae'n siŵr mai y Genedlaethol yng Nghaerffili oedd yr olaf i Elfed ei mynychu o'i gartref ym Mhenarth. Roedd yn naw deg oed y flwyddyn honno! Elfed oedd y cyntaf yn hanes Y Genedlaethol i ennill y Goron ddwy flynedd yn olynol yn 1888 a 1889 a'r trydydd i ennill y Goron mewn un eisteddfod a'r Gadair mewn un arall - Eisteddfod 1894.

Disgyblais yr ystadegydd ynof a chofiais i Elfed (1860 – 1953) weithio pum englyn i Feibion Llafur ac yn eu mys un i'r Glöwr:

At wraidd y brynau treiddi, - heolydd  
Di-heulwen a gerddi:  
Dy fraich yw colofn dy fri,  
A daw'th glod o'th galedi.

Darlun gwahanol a gafwyd gan T. Gwynn Jones, prifardd y Gadair yn 1902 a 1909. Y Glöwr:

Ma'i wyneb e'n llawn o grithe  
A'i iaith e'n lled fras; ond taw sôn  
Os yw e'n sychedig withe  
Myn Jawl mae e'n biwr i'r bôn!  
Dyna'r Glöwr.

Wrth deithio trwy Bengam, heibio i Afon Iais, Y Smiths, Islwyn Close ac Ysgol Trelyn, cofiaf i Trefin, prifardd y Gadair yn Y Genedlaethol, Wrecsam 1933 ddechrau ei yrfa fel athro ym Mis Bach 1923 yn ysgol elfennol Pengam cyn iddo fynd ymhen y flwyddyn yn athro Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Pontllan-fraith hyd ei ymddeoliad yn 1954. Pan enillodd Gadair Eisteddfod Gadeiriol Môn, Llanfairpwllgwyngyll yn 1926 roedd yn byw yn 46 Pencoed Avenue, Pengam. Un englyn a gyhoeddwyd yn ei gofiant gan Brinli Richards, Maesteg, yn 1962 ydy "Wedi'r Streic":

Wedi'r streic a'i dyrys dro – ei hepian  
Anhapus a'r cyffro,  
Da i Glust Hen Wlad y Glo  
Yw pader yr hwter eto.

Ai yr adnod, "Dyros i ni heddiw ein bara beunyddiol" oedd ym meddwl Trefin wrth weithio'r englyn? Disgrifiad i'w gofio ydy "Hen Wlad y Glo" am Gwm Rhymni heddiw. Yma mae gweld glöwr yn cerdded y stryd mor brin â gweld gweinidog yr Hen Gorff mewn coler gron ym mro fy mebyd.

***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost at [ruthcjones25@aol.com](mailto:ruthcjones25@aol.com) (Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau)

Helo bawb. Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac mewn hwyliau da. Dyma gerdd hyfryd am yr enfys sy yn ein ffenestri i ddweud diolch i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd. Mae'r enfys yn arwydd bod y glaw wedi gorffen, ac felly yn arwydd bod dyddiau gwell i ddod. Gallwn ni i gyd edrych ymlaen, fel y bardd, at gael cwrdd â ffrindiau eto.

## Enfys yn y Ffenest

Mae enfys yn y ffenest,  
pob ffenest yn y stryd  
ag enfys fach i ddiolch  
i'r gweithwyr gorau i gyd.

Mae enfys yn y ffenest  
a'r ffenest eto draw  
ac enfys arall wedyn  
yn obaith wedi'r glaw.



Llund gwlad o guro dwylo  
a chanu'r anthem fach  
llond gwlad o aros gartref  
i gadw pawb yn iach.

Ac er bod sgwrsio'n gysur  
ag eraill dros y we,  
mae hiraeth yn fy nghalon  
am weld ffrindiau hyd y lle.

A phan gaf unwaith eto  
fynd allan i gwrdd â'r criw,  
bydd enfys dros y cyfan  
a bydd y byd mewn lliw.

*Tudur Dylan Jones*




# Diolch.....diolch.....diolch.....

I'n holl ddarllenwyr sydd wedi cwblhau ffurflen gorchymyn banc ar gyfer tanysgrifio i "Cwmni" O'r naw deg sy'n talu'n flynyddol drwy'r banc dim ond rhyw ddwsin sydd heb adnewyddu. Ydych chi'n un o'r rheiny.....?

Mae ffurflen archebu ar wefan y papur neu cysylltwch â'r Trysorydd neu'r Golygydd. (Manylion isod)

Atebion ar gyfer Posau'r Plant ar dudalen 8



## PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas [e.thomas119@btinternet.com](mailto:e.thomas119@btinternet.com)

Golygydd: Ben Jones [benamary2000@yahoo.co.uk](mailto:benamary2000@yahoo.co.uk) 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough [faircloughmarian@gmail.com](mailto:faircloughmarian@gmail.com) 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook:  Papur Bro Cwmni

Gwefan: Meter Iaith Sir Caerffili.cymru/



e-bost: [Golygydd@papurcwmni.cymru](mailto:Golygydd@papurcwmni.cymru)/ [benamary2000@yahoo.co.uk](mailto:benamary2000@yahoo.co.uk)

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Mae'n adeg anodd dod o hyd i ddeunydd, felly os oes gan unrhyw un stori, llun, pwt o newyddion neu hanes yr ardal, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.



Ariennir yn  
rhannol gan  
Lywodraeth  
Cymru